## Aelodau Cyfetholedig i Gydbwyllgor Archifau Gwent

Mae Cydbwyllgor Archifau Gwent yn chwilio am nifer fach o unigolion brwdfrydig i ymuno â'r Pwyllgor a helpu i gefnogi gwaith Archifau Gwent.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn hanes a threftadaeth ac rydych yn gyfarwydd â gwaith Archifau Gwent neu wasanaethau archifau'n gyffredinol, byddem ni wrth ein bodd yn clywed oddi wrthych chi.  Yn arbennig, mae gennym ddiddordeb mewn recriwtio'r rheiny â phrofiad neu wybodaeth o un neu fwy o'r meysydd canlynol:

- Gwaith gwasanaethau archifau, er enghraifft, fel ymwelydd, adneuwr neu wirfoddolwr
- Y sector addysg ar unrhyw lefel, gan gynnwys cynradd, uwchradd, addysg bellach ac uwch
- Sicrhau arian grant gan amrywiaeth o gyrff ariannu
- Gweithio gyda sefydliadau cymunedol a/neu dreftadaeth

Mae cyfarfodydd yn digwydd pob chwarter ac fe'u cynhelir yn ystod y dydd trwy Microsoft Teams, ac er nad oes gan aelodau cyfetholedig hawl i bleidleisio, byddwch yn cyfrannu syniadau o'ch gwybodaeth a'ch profiad eich hun i helpu i oleuo penderfyniadau.

Rôl wirfoddol yw hon, ond telir costau teithio ar gyfer mynychu unrhyw gyfarfodydd yn bersonol.  Rhoddir cyflwyniad i waith Archifau Gwent a gwaith y Cydbwyllgor, yn ogystal â hyfforddiant i ddefnyddio Microsoft Teams os oes angen.

Dysgwch fwy am Archifau Gwent trwy www.gwentarchives.gov.uk, a chysylltwch â Lisa Snook, Archifydd Sirol, trwy enquiries@gwentarchives.gov.uk neu 01495 742471 am drafodaeth anffurfiol ynglŷn â sut i ddod yn aelod cyfetholedig.